# Sefydliadau bwyd cymeradwy

Rhestrau o safleoedd bwyd cymeradwy a'r mathau o sefydliadau a gaiff eu cymeradwyo gennym ni a chan awdurdodau lleol.

Mae'n rhaid i fusnesau bwyd cyfanwerthu sy'n cyflenwi bwyd a ddaw o anifeiliaid gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod cymwys o dan Reoliad 853/2004.

## Rhestr o sefydliadau bwyd cymeradwy

- Sefydliadau Cymeradwy yng Nghymru a Lloegr
- Sefydliadau Cymeradwy yng Ngogledd Iwerddon
- Sefydliadau Cymeradwy yn yr Alban
- Sefydliadau Cymeradwy yn yr Undeb Ewropeaidd

## Sefydliadau a gaiff eu cymeradwyo gennym ni

Mae gofyn gweithredu rheolaethau milfeddygol yn y sefydliadau canlynol, ac mae'n rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gennym ni:

- lladd-dai
- ffatrioedd torri
- sefydliadau trin helgig
- marchnadoedd cyfanwerthu cig

Sut i wneud cais i gymeradwyo lladd-dy, ffatri dorri a sefydliad trin helgig.

## Sefydliadau a gaiff eu cymeradwyo gan awdurdodau lleol

### Sefydliadau cig:

- storfeydd oer sy’n ail-lapio ac yn ail-becynnu cig
- sefydliadau briwgig (minced meat)
- sefydliadau paratoi cig
- sefydliadau cig wedi'i wahanu'n fecanyddol
- ffatrïoedd prosesu cynhyrchion cig
- ffatrïoedd prosesu brasterau anifeiliaid wedi'u rendro a chriwsion (greaves)
- ffatrïoedd prosesu stumogau, pledrennau a choluddion wedi'u trin
- ffatrïoedd prosesu gelatin
- ffatrïoedd prosesu colagen

### Sefydliadau pysgod a physgod cregyn:

- sefydliadau molysgiaid dwygragennog byw gan gynnwys canolfannau dosbarthu a chanolfannau puro
- sefydliadau sy'n gweithio gyda chynhyrchion pysgodfeydd gan ddefnyddio llongau ffatri a rhewi, ffatrïoedd prosesu, cynhyrchion pysgodfeydd ffres, neuaddau arwerthu, marchnadoedd cyfanwerthu

## Sefydliadau cynnyrch anifeiliaid:

Dyma sefydliadau sy'n cynhyrchu'r canlynol:

- llaeth amrwd a chynhyrchion llaeth
- wyau a chynhyrchion wyau, gan gynnwys canolfannau pecynnu, ffatrïoedd prosesu, ffatrïoedd wyau ar ffurf hylif

Cysylltwch â'ch awdurdod lleol i wneud cais i gymeradwyo sefydliadau cig, sefydliadau pysgod a physgod cregyn, a sefydliadau cynnyrch anifeiliaid.